| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **6 Hydref 2016** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol, Parth Cyhoeddus**<br>**Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Diogelwch Cymunedol (Conwy a Sir Ddinbych)**<br>**Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol** |
| **Teitl:** | **Partneriaeth Diogelwch Cymunedol – Diweddariad Blynyddol 2015/16** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae adroddiad gweithgarwch a pherfformiad y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn seiliedig ar y cyd-flaenoriaethau partneriaeth a nodwyd yn archwiliad troseddau gogledd Cymru, a gynhelir yn flynyddol. Mae Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru yn cytuno ar flaenoriaethau ac yn llunio cynllun gweithredu sy'n cael ei fonitro. Yn lleol caiff y cynllun hwn ei gyflwyno drwy ddadansoddi'r hyn sy'n digwydd yn ein hardal ac yna gweithredu atebion lleol.

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar weithgarwch a pherfformiad y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn 2015/16. Mae'r adroddiad perfformiad llawn ar gyfer Sir Ddinbych ar gyfer trafodaeth a sylwadau ynghlwm (Atodiad 1). Mae cynllun gweithredu holl brosiectau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn 2015/17 hefyd ynghlwm ar gyfer trafodaeth a sylwadau (Atodiad 2).

Mae'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau yn adolygu'r adroddiad gweithgarwch a pherfformiad yn flynyddol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau am weithgarwch y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar y Cyd yn 2015/16.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymhellir bod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau yn adolygu'r adroddiad gweithgarwch a pherfformiad blynyddol ac yn rhoi sylwadau ar y cynnydd.

## 4. Manylion yr adroddiad

Sefydlwyd Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn 1998 i ddatblygu a gweithredu strategaethau a chynlluniau gweithredu i leihau trosedd ac anrhefn. Roedd gan bob Awdurdod ei Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ei hun. Tua naw mlynedd yn ôl fe

unodd timau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych yn un tîm unigol, gyda CBSC yn brif gyflogwr. Mae'r Uned Gwella Busnes a Moderneiddio yn arwain o ran rheoli'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn Sir Ddinbych.

Mae trefn cyfarfodydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn cynnwys:

- **Grŵp Llywio Strategol** – sy'n cyfarfod tair gwaith y flwyddyn gyda Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (Vicki Robarts), Aelod Arweiniol Parth Cyhoeddus (y Cyng. D Smith) yn mynychu ar ran Cyngor Sir Ddinbych.

- **Grŵp Gweithredu** – grŵp gweithredol sy'n cyfarfod bob chwarter i drafod problemau sy'n codi. Mae'r Rheolwr Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (Emlyn Jones) a Swyddog Cynllunio Strategol (Heidi Gray) yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych.

- **Grŵp Tasg Ymddygiad Gwrthgymdeithasol** – a gynhelir bob chwe wythnos gyda'r Uwch Swyddog Gorfodaeth (Tim Wynne-Evans) yn mynychu ar ran Cyngor Sir Ddinbych.

Gweler y strwythur ynghlwm er gwybodaeth (Atodiad 3).

Tra bod Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru yn canolbwyntio ar lefel ranbarthol ar iechyd meddwl, troseddau cudd a throseddau technoleg, mae'r pedwar Partneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi blaenoriaethu'r meysydd canlynol ar gyfer 2015/16:

1. **Lleihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal**
   - Lleihau troseddau sy'n seiliedig ar y dioddefwr
   - Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol
   - Cefnogi pobl ddiamddiffyn er mwyn eu hatal rhag dioddef troseddau
   - Lleihau troseddau sy'n seiliedig ar y dioddefwr ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a ailadroddir er lles dioddefwyr a chyflawnwyr
   - Gweithio gyda'r Gynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth er mwyn rheoli nifer yr achosion o gam-drin domestig a ailadroddir.
   - Ymdrin yn effeithiol ag achosion risg uchel o gam-drin domestig a thrais rhywiol
   - Gwella hyder pobl o ran rhoi gwybod am gam-drin domestig a thrais rhywiol
   - Cynyddu ymwybyddiaeth pobl ifanc o drais rhywiol

2. **Mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal**
   - Lleihau nifer y bobl sy'n camddefnyddio sylweddau

3. **Lleihau aildroseddu**
   - Oedolion yn aildroseddu
   - Plant a phobl ifanc yn aildroseddu

4. **Blaenoriaethau Lleol**
   - Ymateb yn briodol i droseddau amgylcheddol
   - Lleihau troseddau sy'n gysylltiedig ag eiddo trwyddedig a thacsis

- Gwella hyder pobl o ran rhoi gwybod am Ymddygiad Gwrthgymdeithasol i awdurdodau lleol (CBSC a CSDd)

Mae gan bob maes Blaenoriaeth nifer o ddangosyddion perfformiad i fonitro cynnydd a thueddiadau troseddau. Mae'r ystadegau yn cael eu hadolygu pob chwarter yn y Grŵp Gweithredu a chymerir y camau priodol i fynd i'r afael ag unrhyw fater sy'n codi. Dyma ddolen i Newyddlenni'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol sy'n amlygu'r gwaith partneriaeth sydd wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf http://conwyanddenbighshirelsb.org.uk/newsletters. Gwelwch hefyd y rhestr o'r holl brosiectau penodol i Sir Ddinbych sy'n ceisio helpu pobl i deimlo'n fwy diogel (Atodiad 4).

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau cynllun Lles Sir Ddinbych yn ogystal â blaenoriaethau gwasanaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.

**6. Beth fydd y gost a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae prosiectau partneriaeth o fewn y Cynllun Gweithredu yn cael ei ariannu'n llawn gan grant, fodd bynnag bydd pob gwasanaeth yn dyrannu swm penodol o gyllid fydd yn cefnogi canlyniadau yn uniongyrchol ar gyfer lleihau trosedd yn Sir Ddinbych.

Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn derbyn cyllid grant penodol i ddarparu Cynllun Diogelwch Cymunedol. Mae'r cynllun hwn yn cael ei gymeradwyo gan bawb sy'n eistedd ar Grŵp Strategol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae'r aelodau yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Awdurdodau Cyfrifol a nodir yn Neddf Trosedd ac Anhrefn 1998,, sef Pennaeth Gwasanaeth neu Uwch Reolwyr yr Awdurdodau Lleol, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Prawf Cymru a'r Bwrdd Iechyd.

Mae cyllid Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Ddinbych fel a ganlyn:

(a) Cronfa Cymunedau Diogelach (£166,939) – Cyllid Llywodraeth Cymru sy'n ceisio lleihau nifer y troseddwyr ifanc sy'n aildroseddu.

(b) Cyllid Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (£27,063) – Cyllid Llywodraeth Ganolog ar gyfer materion lleol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

(c) Cyllid Cydlynydd Cam-drin Domestig a Swyddog Trais Domestig Annibynnol (£37,500) - cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno a gweithredu Polisi a Strategaeth Cam-drin Domestig.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fod wedi ei atodi i'r adroddiad**

Mae'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ynghlwm (Atodiad 5).

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Ymgynghorodd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar gynllun gweithredu 2015/16 gyda'r holl awdurdodau cyfrifol yn 2015.

Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn adrodd yn flynyddol i Bwyllgor Archwilio Partneriaethau’r Cyngor ac i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn ôl yr angen.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Dylid cynnwys cost darparu'r cynllun yn y cyllid allanol sydd ar gael.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn wneud i'w lleihau?

Y brif risg yw'r ansicrwydd ynghylch faint fydd y cyllid diogelwch cymunedol yn 2017/18. I liniaru'r risg bydd pob achos busnes yn gadarn a bydd gan bob prosiect a ariennir ganlyniadau clir yn unol â gofynion y grant.

## 11. Pŵer i wneud Penderfyniad

- Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998
- Deddf Diwygio'r Heddlu 2002
- Adran 19 a 20 Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder
- Rheoliadau (Trosolwg ac Archwilio) Trosedd ac Anrhefn 2009
- Erthygl 7.15.2 o Gyfansoddiad y Cyngor

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol
Gwella Busnes a Moderneiddio
Ffôn: 01824 712346